CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd:	**Therapydd Galwedigaethol**
Rhif y Swydd:	**ADU0060**
Cod Gwerthuso Swydd:	**HAYASC004**
Gwasanaeth:	**Gofal Cymdeithasol Oedolion**
Lleoliad/Canolfan Waith:	**Gogledd Powys**

mae hon yn swydd weithiwr hyblyg ac felly mae'r Cyngor yn cynnig cyfle i weithio'n ystwyth, gan gynnwys gweithio gartref

Graddfa:	**Graddfa 11** **Pwynt 30 i bwynt 32** **£42,123 i £44,253 y flwyddyn** **£21.83 i £22.93 yr awr**
Oriau'r contract:	**37 awr, Parhaol**
Yn atebol i:	**Uwch Ymarferydd**
Yn gyfrifol am:	**Ymarferydd Gofal Cymdeithasol**

Crynodeb

Am y rôl:

Ymunwch â Chyngor Sir Powys fel Therapydd Galwedigaethol yn ein tîm cyfeillgar, gan gefnogi pobl o bob oed ac anabledd i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cymunedau. Byddwch yn cynnal asesiadau sy'n canolbwyntio ar y person, yn rheoli risg, ac yn argymell offer ac addasiadau. Gan weithio gydag unigolion, gofalwyr ac asiantaethau partner, byddwch yn hyrwyddo lles, dewis ac annibyniaeth wrth fodloni cyfrifoldebau statudol a safonau proffesiynol.

Amdanoch chi:

- Cymhwyster Therapi Galwedigaethol cydnabyddedig a chofrestriad cyfredol gyda Chyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC).
- Angerdd dros alluogi annibyniaeth drwy ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Sgiliau asesu, dadansoddi a datrys problemau creadigol cryf.
- Hyder wrth reoli achosion cymhleth, risgiau a blaenoriaethau cystadleuol.

- Sgiliau cyfathrebu a gweithio cydweithredol rhagorol.
- Gwytnwch, proffesiynoldeb ac ymrwymiad i gydraddoldeb a chyfrinachedd.

Eich dyletswyddau:

- Asesu anghenion swyddogaethol, gofal cymdeithasol a thai unigolion a gofalwyr.
- Datblygu cynlluniau cytunedig sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n hyrwyddo annibyniaeth a lles.
- Asesu a chydbwyso risgiau wrth ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.
- Argymell offer, addasiadau ac atebion symud a thrin.
- Paratoi adroddiadau proffesiynol ar gyfer grantiau, tai a chynllunio gofal.
- Rheoli llwyth achosion amrywiol a gweithio gyda theuluoedd, darparwyr tai a phartneriaid amlddisgyblaethol.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Jo Barton, Uwch Therapydd Galwedigaethol
Ffôn: 01938 551832
E-bost: joanne.barton@powys.gov.uk

neu

Diane Whittingham, Rheolwr Tîm Therapi Galwedigaethol y Gogledd, Nam ar y Golwg a Gwaith Cymdeithasol (Y Trallwng)
Ffôn: 01938 551893
E-bost: diane.whittingham2@powys.gov.uk

Bydd eich cyfrifoldebau'n cynnwys:

1. Darparu gwasanaeth Therapi Galwedigaethol proffesiynol i gleientiaid o bob oed (gan gynnwys plant) ac anableddau sy'n byw yn y gymuned, yn unol â dyletswyddau a chyfrifoldebau cyfreithiol yr awdurdod lleol.
2. Asesu anghenion unigolion a'u gofalwyr yn gyfannol i gynhyrchu cynlluniau a darpariaethau gofal sy'n seiliedig ar gryfder ac wedi'u cytuno â'r unigolyn. Bydd hyn yn cynnwys asesiadau swyddogaethol neu anghenion tai penodol lle bo'n briodol.
3. Mae risgiau i unigolion ac eraill yn cael eu hasesu a'u cydbwyso mewn ffordd sy'n hyrwyddo annibyniaeth i'r unigolyn a'u gofalwyr.
4. Lle bo'n briodol, asesu a darparu cyngor, offer neu addasiadau i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain ac i barhau i fod mor annibynnol â phosibl wrth gyflawni gweithgareddau bob dydd.
5. Paratoi adroddiadau proffesiynol ar gyfer Grantiau Cyfleusterau Anabl, anghenion Tai, cynlluniau gofal Codi a Chario, presgripsiwn offer ac adroddiadau Therapi Galwedigaethol eraill yn ôl yr angen.
6. Cynnull a/neu fynychu cyfarfodydd rhyngasiantaethol/cyswllt, e.e. cynadleddau achos a chyfarfodydd cynllunio, a gweithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol.
7. Gweithio mewn partneriaeth ag adran dai CSP a landlordiaid preifat ar addasiadau i eiddo er mwyn sicrhau bod addasiadau yn canolbwyntio ar y person ac wedi'u teilwra i anghenion presennol a dyfodol yr unigolyn.
8. Cynnal arbenigedd mewn technegau trin â llaw bresennol ac unrhyw offer cymorth yn y dyfodol er mwyn darparu asesiadau Symud a Thrin arbenigol.

9. Dealltwriaeth o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol i sicrhau bod asesiadau'n unol â deddfwriaeth a sut mae hyn yn diogelu Hawliau Dynol yr unigolyn.
10. Cynnal cofrestriad proffesiynol Allied Healthcare a chadw at yr holl foeseg, safonau a Chodau Ymarfer cysylltiedig.
11. Rheoli llwyth achosion deinamig yn effeithiol, gan flaenoriaethu tasgau yn seiliedig ar risg, cymhlethdod ac anghenion yr unigolyn, wrth sicrhau ymyriadau amserol a pherson-ganolog.
12. Cymryd rhan mewn prosesau statudol i hyrwyddo a diogelu lles plant a/neu oedolion sy'n agored i niwed.
13. Darparu goruchwyliaeth ffurfiol a chyngor anffurfiol i Ymarferydd Gofal Cymdeithasol (OT) fel y'i dirprwywyd gan reolwr llinell.

Gofynion Gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

Mae angen Gwiriad Manylach y DBS i'r swydd hon. Mae'r swydd hon yn cael ei chyfri'n weithgaredd a reoleiddir dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, a bydd yn destun gwirio rhestr o'r bobl hynny sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gydag oedolion hyglwyf

Gofynion Iechyd a Diogelwch:

Cydymffurfio â pholisïau a threfniadau iechyd a diogelwch mewn modd rhagweithiol i sicrhau bod safon uchel o arferion gwaith diogel yn cael eu cynnal.

Datganiad Cydraddoldebau:

Cefnogi a gweithredu egwyddorion ac arferion cyfle cyfartal yn rhagweithiol, fel y nodir ym Mholisi Cydraddoldeb y Cyngor.

Gofynion y Gymraeg:

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

SYLWER:

Er y manylion sydd yn y swydd ddisgrifiad, bydd gofyn i'r sawl sydd yn y swydd wneud unrhyw waith ar gais y Rheolwr o dro i dro, hyd at neu ar lefel sy'n cyfateb â 'Phrif Gyfrifoldebau'r Swydd.'

MANYLEB PERSON

Ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person cywir i'r rôl? Os felly, dangoswch eich bod chi'n bodloni'r meini prawf canlynol yn eich cais.

Profiad

Hanfodol

- Profiad o gynnal asesiadau o angen mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol.
- Nodi a rheoli risgiau.
- Profiad o waith achos cymhleth.
- Profiad o Therapi Galwedigaethol ar draws yr ystod o leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Gwybodaeth

Hanfodol

- Dealltwriaeth o anghenion pobl ag anableddau a'u gofalwyr.
- Dealltwriaeth o ddiogelu a'r materion sy'n effeithio ar bobl ag anableddau a'u gofalwyr.
- Gwybodaeth am ddeddfwriaeth gyfredol, canllawiau cenedlaethol ac arfer gorau sy'n berthnasol i'r swydd.
- Gwybodaeth am Ddeddf Galluedd Meddyliol a'i gweithrediad.

Cymwysterau a Hyfforddiant

Hanfodol

- Cymhwyster Therapi Galwedigaethol Priodol e.e. BSc OT neu Dip COT.
- Cofrestriad fel Therapydd Galwedigaethol gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal.

Rhinweddau Personol

Hanfodol

- Y gallu i adeiladu a chynnal partneriaethau.
- Sgiliau cyfathrebu, ysgrifenedig a llafar da.
- Sgiliau TG da.

Sgiliau

Hanfodol

- Y gallu i reoli argyfwng, datrys gwrthdaro ac ymddygiadau heriol.
- Y gallu i ddangos ymrwymiad i gyfle cyfartal ac arfer nad yw'n gwahaniaethu.
- Ymrwymiad i egwyddorion cyfrinachedd.
- Rhaid bod â gwybodaeth ac ymrwymiad i egwyddorion gofal cymdeithasol fel y'u hymgorfforir mewn deddfwriaeth berthnasol.
- Y gallu i drefnu, blaenoriaethu a rheoli llwyth achosion.

Gofynion Eraill

Hanfodol

- Trwydded yrru gyfredol neu'r gallu i deithio'n helaeth o amgylch y sir.

Rheolwr recriwtio: Adam Greenow

Dyddiad: Ionawr 2026

Ein gwerthoedd:

Gweithiwr Proffesiynol
Rydym yn ymddwyn gyda phroffesiynoldeb ac integriti ym mha bynnag rôl yr ydym yn ei chwarae yn y cyngor

Cadarnhaol
Mae ein hagwedd yn gadarnhaol ym mhopeth a wnawn

Blaengar
Mae ein hymagwedd yn rhagweithiol a chyfrifol wrth gynllunio am y dyfodol

Agored
Rydym yn hysbysu'n gilydd gan rannu gwybodaeth ac ymddwyn â gonestrwydd ac integrity

Cydweithredol
Rydym ni'n gweithio'n adeiladol ac â pharodrwydd ar fentrau ar y cyd

Sut i ymgeisio

Bydd angen i chi gwblhau'r cais ar-lein, mae'n syml, dilynwch y broses gam wrth gam.

Awgrymiadau Defnyddiol:

- Darllenwch y Disgrifiad Swydd a Manyleb Person yn ofalus a'r dystiolaeth eich bod chi'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol yn eich datganiad cefnogi.
- Gwerthwch eich hun a lle bo'n bosibl rhowch enghreifftiau.
- Rhestrwch y cymwysterau sydd gennych sy'n berthnasol i'r swydd, yn ôl y manylion ym manyleb person.
- Sicrhewch fod un o'ch canolwyr o'ch cyflogwr mwyaf diweddar neu os mai hon yw eich swydd gyntaf beth am ofyn i athro ysgol neu diwtor, ond sicrhewch eich bod yn adnabod y canolwr ar lefel broffesiynol.
- Byddwch yn onest a dywedwch wrthym am unrhyw fylchau yn hanes eich cyflogaeth.
- Cwblhewch y cais yn llawn.

Y camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 04/12/2026

Ar ôl cyflwyno eich cais byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi ein bod wedi derbyn eich cais.

Byddwn yn rhoi'r rhestr fer ar 07/12/2026. Byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod os byddwch wedi bod yn llwyddiannus ai peidio. Felly, cadwch lygad ar eich mewnflwch!

Cynhelir y cyfweliadau ar 14/12/2026

Dymunwn bob lwc i chi gyda'ch cais.